

EDWARDS, Syr WILLIAM RICE (1862 - 1923), llawfeddyg a chyfarwyddwr cyffredinol gwasanaeth meddygol India

Enw: William Rice Edwards

Dyddiad geni: 1862

Dyddiad marw: 1923

Rhiant: H. Powell Edwards

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llawfeddyg a chyfarwyddwr cyffredinol gwasanaeth meddygol India

Maes gweithgaredd: Meddygaeth

Awdur: Idwal Lewis

Ganwyd yng Nghaerleon, sir Fynwy, 17 Mai 1862, mab y canon H. Powell Edwards. Addysgwyd ef yn Ysgol Coleg Madlen, Rhydychen, Coleg Clifton, a'r London Hospital. Enillodd radd M.D. yn 1886, a'r flwyddyn honno ymunodd â gwasanaeth meddygol India fel llawfeddyg, a gweithio yn nhalaith Bengal. Yn 1890, fe'i penodwyd yn llawfeddyg personol i'r arglwydd Roberts, ac arhosodd gydag ef am bedair blynedd. Wedi i'r arglwydd Roberts symud o'r India aeth Edwards i'r adran wleidyddol, ond yn 1899, pan benodwyd Roberts yn gadfridog yn Ne Affrig, dewiswyd Edwards yn aelod o'i staff, a gwasnaethodd yn rhyfel De Affrig, 1899-1900. Dychwelodd i'r India, yn llawfeddyg yn Kashmir, ac ymhen naw mlynedd dyrchafwyd ef yn brif swyddog meddygol talaith gogledd-orllewin India, ac yn 1915 yn brif llawfeddyg cyffredinol Bengal. Yn 1918, fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr cyffredinol gwasanaeth meddygol India, a bu yn y swydd honno hyd ei ymddiswyddiad yn 1923. Dyma gyfnod pwysig yn hanes llywodraeth India, ac Edwards a fu'n gyfrifol am drefnu a chyfarwyddo gwasanaeth meddygol India a'i drosglwyddo i ddwylo'r trigolion. Yr oedd iddo barch mawr fel cynghorwr a meddyg ac fel trefnydd manwl ac effeithiol. Bu'n briod ddwywaith. Bu farw yn Llundain 13 Hydref 1923.

Awdur

Idwal Lewis

Ffynonellau

British Medical Journal, 20 Hydref 1923

Darllen Pellach

Obituary: The Late Major-General Sir William Rice Edwards, *The Indian Medical Gazette*, vol. 58, 12, December 1923, pp.606-607

Erthygl Wicipedia: William Rice Edwards

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732979

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Lewis, I., (1953). EDWARDS, Syr WILLIAM RICE (1862 - 1923), llawfeddyg a chyfarwyddwr cyffredinol gwasanaeth meddygol India. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-RIC-1862>

frannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government